# Stori Zahid



Mae Zahid yn 12 oed, ac mae'n byw gyda'i dri brawd a'i rieni mewn pentref bychan yng ngogledd Bangladesh. Roedd Zahid wedi cyrraedd Dosbarth 3 yn yr ysgol gynradd cyn iddo orfod gadael er mwyn cefnogi ei deulu. Yn awr, mae Zahid yn gweithio trwy'r dydd fel gweinydd ar stondin de.

"Dwi'n tristhau'n arw pan welaf fechgyn eraill yn mynd i'r ysgol....Dwi'n hiraethu am ddyddiau'r ysgol, y llyfrau a'm gwisg ysgol. "Pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Kashiabar, fe ofynnodd fy nhad i mi adael yr ysgol a dechrau gweithio ar stondin de. Er bod fy nhad yn gweithio mewn siop, nid yw'n ennill digon o gyflog i gefnogi ein teulu o bump. Ers y diwrnod hwnnw, ond atgof yw dyddiau'r ysgol i mi.

"Yn y boreau dwi'n deffro ac yn cyrraedd y stondin de erbyn 6am. I ddechrau, byddaf yn golchi'r cwpanau a'r dysglau. Er fy mod i'n gweithio tan 10pm, dim ond 50 Taka (40c) dwi'n ei gael. Mae perchennog y stondin yn fy nwrdio am ddim rheswm, ond mae'n rhaid i mi weithio yno, nid oes gennyf ddewis. Mae fy nheulu yn dibynnu arnaf, er gwaethaf fy nghyflog pitw.

"Hefyd, dwi'n colli chwarae pêl droed yn yr ysgol – roedd pawb yn fy edmygu pan oeddwn i â'r bêl! Hoffwn fynd i'r ysgol fel fy ffrindiau. Ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau byddant yn ennill eu bara menyn fel meddygon, peirianwyr neu beilotiaid, ond dim ond gweinydd ar stondin de fydda i o hyd".

Astudiaeth achos © Oxfam

Ffotograff © Ymgyrch Amar Odhicar/Arman Ali. Cefnogir gan Oxfam Novib